Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22

Hydref 2020




www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22

Hydref 2020

www.senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Alun Davies AS**
LLafur Cymru



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Nick Ramsay AS**
Ceidwadwyr Cymreig

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Mark Reckless AS**
Plaid Diddymu Cynulliad Cymru

# Cynnwys

**Casgliadau ac argymhellion** ........................................................ 5

**1. Cyflwyniad** ........................................................ 7

**2. Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22** ........................................................ 8

**3. Effaith COVID-19** ........................................................ 11

**4. Cynllunio hirdymor** ........................................................ 14

**5. Staff y Comisiwn** ........................................................ 17

**6. Ymgysylltu** ........................................................ 21

**7. Cyfnod pontio'r UE** ........................................................ 24

# Casgliadau ac argymhellion

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull a fabwysiadwyd gan y Comisiwn a'r Prif Weithredwr wrth weithio gyda'r Pwyllgor i greu gwybodaeth ariannol dryloyw. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y berthynas waith effeithiol hon yn parhau rhwng Comisiwn y Senedd a'r Pwyllgor Cyllid yn y Chweched Senedd. ........ Tudalen 10

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu am y costau a'r arbedion a nodwyd o ganlyniad i COVID-19, am y cyfnod hyd at ddiwedd mis Medi. Yn ogystal, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad terfynol am y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. ........ Tudalen 13

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn mynd i sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor Cyllid ym mis Chwefror 2021 er mwyn trafod sut mae prosiectau hirdymor wedi cael eu blaenoriaethu a'u cynllunio, gan gynnwys a fydd y cynllun cynaliadwyedd a'r targedau newydd sydd i fod ar waith o 2021 ymlaen yn cael eu gweithredu a sut y bwriedir iddynt ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau a chyllid. ........ Tudalen 16

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu adroddiad blynyddol ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol i'r Pwyllgor Cyllid yn y Chweched Senedd ac ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, er mwyn galluogi'r Comisiwn i ddangos gwerth am arian y cynllun hwn. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, os oes angen llunio cyllideb atodol i adlewyrchu'r cronni gwyliau blynyddol, y dylid cynnwys asesiad o unrhyw gostau ychwanegol, ochr yn ochr â diweddariad ar lefelau'r absenoldebau oherwydd salwch ac effaith y pandemig ar les staff. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cynllun cyfathrebu'r Comisiwn yn egluro'n glir sut y caiff blaenoriaethau eu pennu, eu mesur a'u cyflawni, a sut mae'r cynllun yn ceisio codi proffil y gwaith a wneir mewn Pwyllgorau ac yn y Senedd. ........ Tudalen 22

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn rhoi sylw arbennig i sicrhau bod ymgysylltu â'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, yn anodd eu cyrraedd, neu sy'n annhebygol o ymgysylltu â'r Senedd, yn brif flaenoriaeth yn ei gynllun cyfathrebu. ........ Tudalen 23

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r adroddiad ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol gynnwys manylion ychwanegol ynghylch sut y mae ailstrwythuro'r Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu yn cyd-fynd ag amcanion y cynllun. ........ Tudalen 23

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu manylion ychwanegol i egluro'r adnoddau sydd gan y Comisiwn ar hyn o bryd i gefnogi'r Senedd yng nghyfnod pontio'r UE, yr adnoddau arbenigol ychwanegol y cyfeirir atynt mewn tystiolaeth, a sut y bydd yr adnoddau hyn yn cael eu cyrchu. ........ Tudalen 25

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

**1.** Mae Rheol Sefydlog 20.13 y Senedd yn nodi:

> "Heb fod yn hwyrach na 1 Hydref ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i un o aelodau'r Comisiwn osod gerbron y Senedd gyllideb ddrafft ar gyfer y Comisiwn sy'n nodi'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall y mae'r Comisiwn wedi cytuno arno gyda Gweinidogion Cymru."[1]

**2.** Mae'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad ar y Gyllideb ddrafft hon. Mae Rheol Sefydlog 20.14 yn nodi:

> "Caiff adroddiad y pwyllgor cyfrifol argymell amrywiadau yn y symiau a gynigiwyd yn y gyllideb ddrafft ar yr amod na fyddai effaith net yr amrywiadau hynny'n cynyddu cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yng nghyllideb ddrafft y Comisiwn."[2]

**3.** Trafododd y Pwyllgor Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22 yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2020, gan glywed tystiolaeth gan:

- Suzy Davies AS, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu;
- Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd;
- Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid, Senedd Cymru.

[1] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru
[2] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru

# 2. Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22

## Cyd-destun

**4.** Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd y Comisiwn Ddatganiad o Egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru (cyrff a ariennir yn uniongyrchol) i'w ystyried wrth lunio ceisiadau cyllidebol:

> Datganiad o Egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol:
>
> ▪ Dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu hirdymor yng Nghymru, a'r pwysau ariannol sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus ehangach.
>
> ▪ Dylai ceisiadau ddangos sut y caiff amcanion blynyddol ac amcanion amlflwydd eu blaenoriaethu, eu monitro a'u cyflawni.
>
> ▪ Ni ddylai cyrff a ariennir yn uniongyrchol ragdybio unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau, ni waeth beth fo'r newid yn y grant bloc, gan fod unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus datganoledig eraill.
>
> ▪ Dylai cyrff a ariennir yn uniongyrchol geisio gwella eu prosesau a sicrhau arbedion yn barhaus.
>
> ▪ Mewn achosion lle y gwneir cais am gynnydd mewn cyllid, dylid cefnogi unrhyw gais o'r fath gyda thystiolaeth o'r angen a'r budd sydd ynghlwm wrth y cais, a thystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i leihau costau cysylltiedig. Yn ogystal, dylid egluro a meintioli'r canlyniadau sydd ynghlwm wrth beidio â sicrhau'r cynnydd mewn adnoddau y gofynnwyd amdano.

## Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd

**5.** Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd (y Gyllideb ddrafft) ar gyfer 2021-22 yw £62.914 miliwn, (£3.339 miliwn, neu 5.6 y cant yn uwch na Chyllideb Atodol Gyntaf 2020-21). Mae Tabl 1 isod yn rhoi penawdau'r Gyllideb ddrafft, a'r prif ffigurau yw:

- Mae gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn (ac eithrio dibrisiant), y mae gan y Comisiwn reolaeth drosto, yn £39.445 miliwn;
- Mae cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig yn £16.819 miliwn;

- Mae gwariant a glustnodwyd ar gyfer etholiadau yn £2.6 miliwn. (Mae hyn yn cymharu â chyllideb 2016-17 o £2.5 miliwn, a gwariwyd y cyfan ac eithrio £9,000[3]);
- Mae dibrisiant yn parhau ar £2.25 miliwn;
- Mae costau cyllid pensiwn yr Aelodau yn £1.8 miliwn.

| **Pennawd y Gyllideb** | **2020-21*** | **2021-22** | **Newid** | **Newid** |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Aelodau** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | £25,358 | £26,325 | £967 | 3.8% |
| Adeiladau a chyfleusterau | £7,727 | £7,798 | £71 | 0.9% |
| Costau TGCh | £2,310 | £2,380 | £70 | 3.0% |
| Costau eraill | £2,363 | £2,202 | -£161 | -6.8% |
| **Cyfanswm gwariant refeniw** | **£37,758** | **£38,705** | **£947** | **2.5%** |
| Cyfanswm incwm | -£220 | -£220 | £0 | 0.0% |
| Gwariant cyfalaf | £500 | £500 | £0 | 0.0% |
| Cronfa prosiectau | £1,015 | £460 | -£555 | -54.7% |
| Cyfanswm yr adnoddau gweithredol (ac eithrio) | £39,053 | £39,445 | £392 | 1.0% |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | £2,250 | £2,250 | £0 | 0.0% |
| **Cyfanswm gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn** | **£41,303** | **£41,695** | **£392** | **0.9%** |
| Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Aelodau | | | | |
| Cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig | £16,172 | £16,819 | £647 | 4.0% |
| Gwariant sy'n gysylltiedig â'r etholiad | £500 | £2,600 | £2,100 | 420.0% |
| Costau cyllid pensiwn yr Aelodau | £1,600 | £1,800 | £200 | 12.5% |
| **Cyfanswm gwariant sy'n gysylltiedig â'r Aelodau** | **£18,272** | **£21,219** | **£2,947** | **16.1%** |
| Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn | £59,575 | £62,914 | £3,339 | 5.6% |

**6.** Mewn perthynas â'r Gyllideb ddrafft hon, rhoddodd y Comisiynydd fanylion ar waith a wnaed i symleiddio'r gyllideb yn ystod tymor y Senedd hon, gan ddweud

[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2016-2017, Gorffennaf 2017

> "We kept the overall increase of the operational budget at just 1 per cent, which is pretty amazing considering all those things we were talking about earlier that we've got—not only completing this Senedd, but Senedd reform and the transition period and so forth—which will flip over into the next Senedd term as well."[4]

## Safbwynt y Pwyllgor

**7.** Mae'r Pwyllgor wedi gwneud dau ddarn o waith i roi arweiniad o ran cynyddu tryloywder a dangos cynllunio ariannol gofalus i gyrff a ariennir yn uniongyrchol. Mae hyn wedi cynnwys cyhoeddi Datganiad o Egwyddorion y mae'n rhaid i gyrff a ariennir yn uniongyrchol ei ddilyn wrth wneud cynigion cyllidebol a rhoi cyfarwyddyd ar ddefnydd y Comisiwn o danwariant Penderfyniad y Bwrdd Taliadau. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn y Senedd nesaf.

**8.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod gwelliannau wedi cael eu gwneud o flwyddyn i flwyddyn i dryloywder gwybodaeth ariannol yng nghyllidebau olynol y Comisiwn yn ystod tymor y Senedd hon. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull agored a ddangoswyd gan y Comisiwn a'r Prif Weithredwr wrth weithio gyda'r Pwyllgor.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull a fabwysiadwyd gan y Comisiwn a'r Prif Weithredwr wrth weithio gyda'r Pwyllgor i greu gwybodaeth ariannol dryloyw. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y berthynas waith effeithiol hon yn parhau rhwng Comisiwn y Senedd a'r Pwyllgor Cyllid yn y Chweched Senedd.

[4] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 29

# 3. Effaith COVID-19

**9.** Yn dilyn cais gan y Pwyllgor, darparodd y Comisiwn amcangyfrif o effaith COVID-19 ar gyllideb 2020-21. Amcangyfrifodd y Comisiwn gynnydd cyffredinol o £280,000 hyd at ddiwedd mis Mehefin 2020. Y prif feysydd oedd yn debygol o gael eu heffeithio oedd:

- Gweithgareddau Ymgysylltu ac Allgymorth – gostyngiad o £50,000.
- Diogelwch ffisegol (prosiect oedi) – cynnydd o £208,000 gyda gwariant yn cael ei ddwyn ymlaen o 2021-22
- Gohirio gweithgaredd 2019-20 (gosod drysau tân) – cynnydd o £92,000 yn 2021-22
- Gofynion ychwanegol COVID-19 ar gyfer y Cyfarfod Llawn – cynnydd o £30,000.

**10.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi y bydd newidiadau i arferion gwaith yn cael effaith gadarnhaol a hefyd negyddol yn y byd ar ôl COVID-19:

> "Er enghraifft, mae cyfnod y cyfyngiadau symud wedi dangos ei bod yn ymarferol ac yn fwy dymunol, mewn rhai achosion, i ni gynnal cyfarfodydd yn rhithwir. Mae hyn yn arwain at fanteision fel arbed amser a chostau teithio, gan ryddhau amser i'w ddefnyddio'n fwy adeiladol. Fodd bynnag, mae hefyd wedi arwain at gostau ychwanegol, fel trwyddedau meddalwedd a chaledwedd TGCh, yn ogystal â rhoi pwysau ar adnoddau staffio ac offer ar gyfer gweithio gartref.
>
> Mae'r gwytnwch a welwyd yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud wedi dangos ein bod yn gallu parhau i ddarparu cymorth o'r radd flaenaf i fusnes y Senedd yn ogystal â rhoi cipolwg ar fanteision a chyfleoedd posibl ar gyfer ein model o weithio yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn creu posibiliadau o ran y ffordd y defnyddir ein swyddfeydd ynghyd â helpu i leihau ôl troed carbon yr ystâd."[5]

**11.** O ran effaith COVID-19, eglurodd y Comisiynydd:

> "…the demands on the public purse are changing all the time. We know for a fact that we've saved some money in travel costs, but that's started to change now as people are coming back into the Assembly—into the Senedd, sorry. So, while there are items such as some utilities, some printing and stationery, the demand for those are actually on the rise. And whatever we may have saved from maybe not coming into the Senedd—certainly members of staff, as well as ourselves, of course, all know what this looks like—we're spending more on equipment for 'at home'. So, how that's affected how we've looked at the budget for next year, which I guess is part of the reason for this question, you'll see in some of the budget lines. For example, travel and subsistence for staff

[5] Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22

> has gone down a little bit, but you can expect to see rises in some of the kit that we need in the ICT lines of the budget."[6]

**12.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi bod y Comisiwn wedi cynnal "ymarfer cyllidebu cwbl gynhwysfawr i ddadansoddi'n fanwl y gyllideb nad yw'n gysylltiedig â staffio ac effaith COVID-19, yn ogystal â'r gostyngiad disgwyliedig o ran gweithgarwch yn ystod cyfnod yr etholiad."[7]

**13.** Mewn perthynas â chyllidebu cwbl gynhwysfawr, dywedodd y Comisiynydd mai rhaglen dreigl yw hon drwy gydol tymor y Senedd, ond y prif ddiben yw:

> "…to give the accounting officer complete reassurance that budgets are appropriate for the tasks that are required in those service areas, and those service areas, of course, ultimately meeting the strategic goals of the Senedd
>
> …I wouldn't have expected a huge amount of change in some of these lines because they're there as 'business as usual', in one sense, and all departments are affected by zero-based budgeting throughout the year."[8]

**14.** Tynnodd y Comisiynydd sylw at effaith benodol o ganlyniad i COVID-19, sy'n ymwneud â chronni gwyliau blynyddol, gan esbonio:

> "…this isn't a cash item but it will actually affect what's on the face of the budget, as we go forward in this. And it's looking, at this stage, as if we may have about £0.5 million-worth of accrued leave, which will need to be reflected on the face of, probably, a supplementary budget, I would think. But I would just reinforce the point that, of course, there's no cash effect on this."[9]

**15.** Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid ymhellach fod y ddarpariaeth yn ofynnol o dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19, ac aeth ymlaen i ddweud:

> "…we're looking at quite a significant increase in the amount of annual leave that staff have accrued…we've just run the figures now, at 30 September, and the figures have come out at about £0.5 million. But, obviously, between now and the end of the financial year, we're looking at staff accruing an additional 15 days of leave, and it's looking to see if staff have the opportunity to take that leave within this time, considering that it's a busy calendar of Senedd business. We've got the exit from the European Union coming along, also COVID has impacted on us, and we've also got the transition to the sixth Senedd. So, it's quite a burden on staff and them having the ability to take annual leave, when there isn't that large period of recess, before 31 March. So, we're monitoring it very closely."[10]

---

[6] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 8
[7] Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22
[8] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 20
[9] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 9
[10] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 13

## Safbwynt y Pwyllgor

**16.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r diweddariad a roddwyd gan y Comisiwn ym mis Mehefin 2020 ynghylch costau ac arbedion sy’n gysylltiedig â COVID-19 ac mae'n cydnabod bod y wybodaeth a roddwyd ar yr adeg honno wedi dod yn gynnar yn y pandemig ac y byddai'n anodd mesur arbedion. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael gwybodaeth fwy cynhwysfawr er mwyn deall ble y mae costau neu arbedion net yn cael eu gwneud.

**17.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod staff yn cronni gwyliau blynyddol ychwanegol ac y gallai hwn fod yn addasiad technegol ddiwedd y flwyddyn, drwy gyllideb atodol, os oes angen. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar lesiant staff a thrafodir hyn ymhellach ym Mhennod 5.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu am y costau a'r arbedion a nodwyd o ganlyniad i COVID-19, am y cyfnod hyd at ddiwedd mis Medi. Yn ogystal, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad terfynol am y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

# 4. Cynllunio hirdymor

**18.** Yn dilyn y sesiwn graffu ar y Gyllideb Ddrafft ym mis Hydref 2019, argymhellodd y Pwyllgor bod y Comisiwn yn darparu manylion, tua Mehefin 2020, am y gwaith cynllunio prosiectau hirdymor sy'n cael ei wneud, gyda'r bwriad o gynnal sesiwn graffu ar waith cynllunio tymor canolig / tymor hir y Comisiwn yn 2020.[11]

**19.** Derbyniodd y Comisiwn yr argymhelliad hwn, ond nododd y byddai'n darparu rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am ei waith cynllunio prosiectau hirdymor ochr yn ochr â'i gynigion cyllidebol ar gyfer 2021-22, erbyn 1 Hydref 2020.[12]

## Cynnal a chadw'r ystâd

**20.** Noda'r Comisiwn yn ei Gyllideb Ddrafft "gan gofio'r angen am ddarbodusrwydd, mae'r Comisiwn wedi gostwng y gronfa prosiectau o'r £1.055 miliwn a ragwelwyd i £0.450 miliwn. Bydd y gostyngiad hwn yn cyfyngu ar y buddsoddiad a gynlluniwyd ar gyfer TGCh a'r ystâd, ond caiff yr effeithiau eu rheoli drwy osod blaenoriaethau cadarn".[13]

**21.** Mae cyllidebau olynol y Comisiwn wedi cyfeirio at ailosod y ffenestri yn Nhŷ Hywel, ac mae'r Pwyllgor wedi nodi eisoes:

> "Dyrannodd y Comisiwn £345,000 tuag at y prosiect newydd i osod ffenestri newydd yn 2019-20. Ni ddefnyddiwyd y cyllid hwn, er bod dogfennaeth y gyllideb yn cyfeirio at astudiaeth ddichonoldeb fanwl yn cael ei chomisiynu yn 2019-20 a gofynnir am £50,000 arall ar gyfer 2020-21 i gynnal astudiaethau dichonoldeb ychwanegol. Nid yw'n glir pam y gofynnodd y Comisiwn am £345,000 yn 2019-20 os na chynhaliwyd astudiaethau dichonoldeb."[14]

**22.** Mae Cyllideb Ddrafft 2021-22 yn nodi bod yr astudiaeth ddichonoldeb wedi cael ei chynnal, a bydd y Comisiynwyr yn ystyried ei chanlyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol, i "barhau i ystyried yr opsiynau a'r costau ac i ystyried sut y gallai'r prosiect hwn naill ai gael ei gyflwyno'n raddol, neu ei ariannu fel eitem eithriadol untro yng Nghyllideb y Comisiwn yn y Chweched Cynulliad".[15]

[11] Gwaith Craffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21
[12] Ymateb Comisiwn y Cynulliad i adroddiad y Pwyllgor Cyllid – 5 Tachwedd 2019
[13] Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22
[14] Gwaith Craffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21
[15] Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22

**23.** Esboniodd y Comisiynydd y disgwylir i adroddiad yr astudiaeth ddichonoldeb ffenestri gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2020 ac y byddai'r prosiect cyffredinol yn ddrud.[16]

> "This is something that will have to be considered by the next Commission, almost whether they like it or not. I would be reluctant—and I'm sure you'd be as well—if suddenly it was seen as an issue that the next set of Commissioners would think was not important. It's important, because this is about health and safety, let alone the sustainability of the building and the energy of the building and so forth."[17]

## Prosiect meddalwedd ar gyfer deddfwriaeth

**24.** Rhoddodd y Comisiwn ddiweddariad ar gostau'r prosiect meddalwedd deddfwriaeth ym mis Gorffennaf 2020. Mae'r Gyllideb ddrafft yn cadarnhau bod costau'r contract terfynol, sy'n cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru, yn is na'r disgwyl, a bod y gofyniad yn y gyllideb yng Nghronfa Prosiect 2021-22 wedi ei ostwng o £600,000 i £240,000.

## Cynaliadwyedd a gweithio yn y dyfodol

**25.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi y bydd gweithio gartref o ganlyniad i COVID-19 yn galluogi'r Comisiwn i ailasesu'r angen am le mewn swyddfeydd yn y dyfodol.

> "Pe bai 20 y cant o'r rheini a oedd yn bresennol bob dydd yn Nhŷ Hywel cyn y cyfyngiadau symud yn parhau i weithio gartref, yna byddai hyn yn golygu cynnydd sylweddol o ran capasiti yn y dyfodol. Byddai hefyd yn gyfle i ailystyried sut rydym ni'n defnyddio Tŷ Hywel ac i ddarparu cyfleusterau newydd o bosibl."[18]

**26.** Pan ofynnwyd i'r Comisiynydd pa hyblygrwydd fydd ar gael i'r Comisiwn yn y Chweched Senedd, nododd nad oedd llawer o hyblygrwydd:

> "The project budget: that's just under £1 million in total. Some of that is, effectively, earmarked for the legislative workbench, which means that we're talking, perhaps, about £600,000 or £700,000 that Commissioners will genuinely have available to them in the next Senedd for meeting their own priorities … So, they haven't got a lot of money to be flexible with, but what they've got, they can be as flexible as they like with. I think that's probably the best way of putting it."[19]

[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 39
[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 32
[18] Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22
[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 29

## Safbwynt y Pwyllgor

**27.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r newyddion bod y prosiect meddalwedd deddfwriaeth yn mynd rhagddo o fewn yr amserlen a'i fod ymhell o fewn y gost a gyllidebwyd yn wreiddiol ar ei gyfer, a byddai'n croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am y costau terfynol a fydd yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Cyllid yn y Chweched Senedd.

**28.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r angen i sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Fodd bynnag, mae pryderon nad yw'r cyllid cyffredinol sydd ei angen ar gyfer ffenestri newydd, a chyflwyno'r prosiect yn raddol, wedi'i sicrhau eto, er iddo gael ei ystyried fel rhan o'r gwaith craffu blynyddol ar y gyllideb ers mis Medi 2018. Mae astudiaeth ddichonoldeb bellach wedi cael ei chynnal, ond nid yw'r Gyllideb ddrafft yn cynnwys unrhyw gostau ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn ym mlwyddyn gyntaf y Chweched Senedd. Er ei fod yn cydnabod y gellir talu'r costau hyn o gyllidebau gweithredol, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai prosiectau o'r maint hwn fod yn destun craffu cyhoeddus.

**29.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Comisiwn wedi tynnu sylw at yr angen i gyflwyno prosiectau cynnal a chadw hanfodol yn raddol dros y blynyddoedd nesaf ac mae'n cefnogi'r dull hwnnw mewn egwyddor. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae'r Comisiwn presennol yn bwriadu trosglwyddo ei etifeddiaeth i'r Comisiwn nesaf. Cyn diwedd y Senedd hon, bydd y Pwyllgor yn gwahodd y Comisiwn i roi tystiolaeth er mwyn deall sut y gellid cyflwyno ac ariannu ei waith cynllunio prosiectau hirdymor yn raddol.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn mynd i sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor Cyllid ym mis Chwefror 2021 er mwyn trafod sut mae prosiectau hirdymor wedi cael eu blaenoriaethu a'u cynllunio, gan gynnwys a fydd y cynllun cynaliadwyedd a'r targedau newydd sydd i fod ar waith o 2021 ymlaen yn cael eu gweithredu a sut y bwriedir iddynt ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau a chyllid.

# 5. Staff y Comisiwn

**30.** Prif gost y Comisiwn yw "costau staffio a chostau cysylltiedig". Mae'r Gyllideb ddrafft hon yn cynyddu 3.8 y cant, sy'n adlewyrchu dyfarniad cyflog o 2.6 y cant o Ebrill 2021 ymlaen. Mae hyn yn cynnwys £129,000 ar gyfer staff i gynorthwyo'r Comisiynydd Safonau (gostyngiad o £7,000 yn 2020-21 i adlewyrchu'r toriad ar gyfer etholiad) a darpariaeth 'swyddi gwag/trosiant staff' gwerth £1 miliwn, a gyflwynir ar wahân wrth ddadansoddi'r prif ffigur ar gyfer 2021-22.

**31.** O ran staffio, mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi:

> "Yn ystod y Pumed Senedd, ac yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o gapasiti a Chynllun Ymadael Gwirfoddol, rhoddwyd cap ar nifer staff y sefydliad yn 2020-21. Mae hyn wedi ein galluogi i sicrhau bod y disgyblaethau priodol ar waith i gydfynd ag adnoddau a gofynion." [20]

**32.** Yn hydref 2017, argymhellodd y Pwyllgor y dylai swyddi cyfwerth ag amser llawn barhau fel y maent.[21] Yn dilyn hynny, ym mis Mai 2019, rhoddodd y Comisiwn wybod i'r Pwyllgor o'i fwriad i gynyddu capasiti staffio er mwyn ymateb i Brexit a diwygio Cyfansoddiadol.[22]

**33.** Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20[23] y Comisiwn yn nodi y cynyddodd cyfanswm nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn) o 454.1 ar ddiwedd mis Mawrth 2019 i 459.0 ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Y nifer cyfartalog dros y cyfnod o 12 mis oedd 453.4 o'i gymharu â 442.8 ar gyfer 2018-19.

## Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol

**34.** Ym mis Hydref 2019, argymhellodd y Pwyllgor y canlynol:

> "Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod adroddiad ariannol blynyddol ar fuddion tymor hir, gan gynnwys arbedion parhaus, y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor gan nodi sut mae'r cynllun wedi cyflawni'r nodau a nodwyd, yn benodol "Cyflawni arbedion hirdymor pan fo modd a/neu osgoi costau ychwanegol wrth fynd i'r afael â diffyg sgiliau"."[24]

[20] Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22
[21] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018–19
[22] Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid – 3 Mai 2019
[23] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd 2019-20, Mehefin 2020
[24] Gwaith Craffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2020-21

**35.** Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor, dywedodd y Comisiwn y "bydd adroddiad ar fuddion y Cynllun Ymadael Gwirfoddol a sut y mae wedi cyflawni ei nodau datganedig yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor erbyn mis Medi 2020.[25]

**36.** Nododd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd, a'i bod yn gobeithio:

> "…ein bod ni wedi gallu rhoi corff o dystiolaeth at ei gilydd fydd yn rhoi sicrwydd i chi ynglŷn â sut weithiodd y cynllun yna a sut mae e wedi bod yn rhywbeth sydd wedi cyfrannu at yr hyblygrwydd i ni gael corff o staff felly sydd wedi gallu dangos hynny yn ystod y chwe mis diwethaf."[26]

**37.** Holodd y Pwyllgor sut yr oedd penodi'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu a phenodi uwch staff yn y gyfarwyddiaeth honno yn gysylltiedig â'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol. Eglurodd y Prif Weithredwr:

> "We did envisage a reorganisation of the communications and engagement team, although the details of that, as you would expect, were not finalised until the director had been appointed. So, obviously, we wanted him to have input into the final new arrangements. Those proposals were presented in February, … all of these have been costed into next year's budget."[27]

**38.** Yn ystod ei sesiwn graffu ar 21 Medi 2020 gofynnodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a oedd y ddau setliad cyflog uwch o'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn gwireddu'r buddion disgwyliedig. Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid "the VES was never intended to save money; it was to allow the Commission to look at the staff complement and reskill in those areas that were required".[28]

## Llesiant staff

**39.** Gan fyfyrio ar newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad i COVID-19, nododd y Prif Weithredwr fod gwaith yn cael ei wneud i ystyried sut y bydd patrymau gwaith yn y dyfodol yn newid ac "ar ddatblygu opsiynau i alluogi pobl gael patrwm cyfoethocach o gydbwyso gwaith a bywyd tu allan."[29]

**40.** Nododd y Comisiynydd fod lefelau absenoldeb wedi gostwng yn ystod y cyfnod hwn,[30] a bod trosiant staff wedi lleihau hefyd.[31]

---

[25] Ymateb Comisiwn y Cynulliad - 5 Tachwedd 2019
[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 81
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 115
[28] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 21 Medi 2020, paragraff 60
[29] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 83
[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 51
[31] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 128

**41.** Gan ymhelaethu ar y cronni gwyliau blynyddol y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn yr adroddiad hwn, dywedodd y Comisiynydd:

> "…staff have been working very hard during this period. There will be certain departments that have found it quite difficult to take any leave".[32]

**42.** Dywedodd y Prif Weithredwr y gwnaed yn glir bod disgwyl i bobl gymryd gwyliau, oherwydd nid mater ariannol yn unig mohono, mae hefyd yn ymwneud â:

> "…iechyd a diogelwch pobl; mae angen iddyn nhw gymryd eu gwyliau i gynnal eu lles, fel y mae'n nhw'n gallu, er eu bod nhw ddim, o bosibl, yn gallu teithio fel yr oedden nhw wedi ei fwriadu. Ond beth rŷn ni wedi ei weld yw, oherwydd nad ydym ni wedi cael y toriad hir arferol dros yr haf, fod yna bwysau ychwanegol wedi bod ar rai adrannau. … ac mae e'n fater o ffocws rheoli arbennig, i ni wneud yn siŵr bod pawb yn cael gorffwys yn eu tro, a'n bod ni'n cadw'r mater yma dan chwyddwydr am weddill y flwyddyn ariannol ac i fewn i'r flwyddyn nesaf."[33]

## Safbwynt y Pwyllgor

**43.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r newidiadau a wnaed i'r ffordd y mae costau staff sy'n cefnogi'r Comisiynydd Safonau yn cael eu cyflwyno yn y Gyllideb ddrafft hon yn dilyn argymhelliad blaenorol gan y Pwyllgor.

**44.** Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw'r adroddiad y gofynnwyd amdano ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol wedi cael ei ddarparu mewn pryd ar gyfer y sesiwn graffu flynyddol, ond mae'n cydnabod bod effaith COVID-19 yn golygu bod materion eraill wedi cael eu blaenoriaethu. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod nad ffordd o dorri costau yn unig oedd y Cynllun Ymadael Gwirfoddol, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r adroddiad ariannol blynyddol roi manylion ynghylch sut mae'r nod o "Gyflawni arbedion hirdymor pan fo modd a/neu osgoi costau ychwanegol wrth fynd i'r afael â diffyg sgiliau" wedi cael ei gyflawni.[34]

**45.** Mae'r cyfnod o fis Mawrth 2020 wedi bod yn anodd iawn, ac mae'r Pwyllgor yn cydnabod cyflawniadau'r Comisiwn a'i staff, wrth redeg busnes y Senedd yn llwyddiannus, symud staff i weithio gartref, a chefnogi llesiant staff drwy gydol y pandemig.

**46.** Mae'r Pwyllgor yn nodi yr adroddir bod salwch a throsiant staff yn ystod y flwyddyn wedi gostwng, ond cafwyd cynnydd cyffredinol o ran cronni gwyliau

[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 11
[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 17
[34] Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid – 3 Mai 2019

blynyddol. Os oes angen i'r Comisiwn gyflwyno cyllideb atodol o ganlyniad i gronni gwyliau blynyddol, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl sylwebaeth yn asesu a oes unrhyw risgiau o gario costau ychwanegol ymlaen i 2021-22, ynghyd â diweddariad ar lefelau salwch ac absenoldebau eraill, yn benodol absenoldeb arbennig.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu adroddiad blynyddol ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol i'r Pwyllgor Cyllid yn y Chweched Senedd ac ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, er mwyn galluogi'r Comisiwn i ddangos gwerth am arian y cynllun hwn.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, os oes angen llunio cyllideb atodol i adlewyrchu'r cronni gwyliau blynyddol, y dylid cynnwys asesiad o unrhyw gostau ychwanegol, ochr yn ochr â diweddariad ar lefelau'r absenoldebau oherwydd salwch ac effaith y pandemig ar les staff.

# 6. Ymgysylltu

**47.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi mai “Un o brif themâu ein gwaith ymgysylltu yw rhoi pobl wrth galon eu senedd… mae’r Senedd wedi canolbwyntio fwyfwy ar ddefnyddio llwyfannau digidol”.[35]

**48.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn parhau i egluro bod effaith cyfnod cyfyngiadau symud 2020 wedi arwain at gynnydd o ran ymgysylltu digidol, gan nodi:

> “Bydd gwefan newydd y Comisiwn yn hybu gwell dealltwriaeth o’r Senedd a'i gwaith. Bydd y wefan newydd hefyd yn galluogi mwy o bobl i gymryd rhan yng ngwaith y Senedd a bydd yn cefnogi ein strategaeth ddata agored. Drwy ei gwneud hi'n haws i bobl rannu a chyfrannu at waith y Senedd, rydym ni'n gobeithio ymgysylltu'n amlach ac yn fwy ystyrlon â phobl Cymru.”[36]

**49.** Gan gyfeirio at effaith COVID-19 ar y gwaith arfaethedig i hyrwyddo pleidleisiau i bobl 16 oed, dywedodd y Comisiynydd:

> “The effect has been, as you would expect, quite serious. The estate has been closed. The ability for outreach work has—well, it's stopped. Everything, more or less, has moved online. But it's moved online pretty successfully, I think, particularly as we're talking to a cohort of people who live more online than perhaps many of us do. So, the materials, certainly, that are being used for, or were designed for, school outreach, they've been reconfigured so that they can be used online; they're appropriate for home-schooling, rather than by teachers in the classroom, for example. And there's a range of virtual events that are making up for the lack of face-to-face activity. The Youth Parliament, of course—the Members of that Parliament have themselves been doing some awareness-raising work on this.”[37]

**50.** O ran yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar ymgysylltu'n ehangach, dywedodd y Comisiynydd:

> “…I suppose one of the things that I think has been a happy accident from this would be that it has accelerated the work that the Commission has done, with the blessing of the Commissioners, actually, to reach out to parties who have not particularly taken an interest in what happens in our place of work in a way that we would all have liked them to. There's a real emphasis now on reaching those parts of Wales that we haven't reached before.”[38]

[35] Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22
[36] Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22
[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 90
[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 90

**51.** Pan holwyd y Prif Weithredwr am strategaeth ymgysylltu'r Senedd, nododd fod buddsoddiad yn cael ei wneud mewn staff uwch i gefnogi'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd. Esboniodd:

> "…mae hwnna'n mynd i adeiladu ar waith y tîm presennol o safbwynt defnyddio analytics yn y maes digidol yn fwy effeithiol o safbwynt gwerthuso digwyddiadau."[39]

**52.** Nododd y Prif Weithredwr fod gwaith yn cael ei wneud i dargedu'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol:

> "… rŷn ni'n datblygu'r gwaith yna; mae e'n mynd i fod yn ffocws mawr i'r cyfarwyddwr a'i staff yn ystod y flwyddyn nesaf, ac rŷn ni'n gobeithio gallu ehangu ymwybyddiaeth o ddemocratiaeth ac o waith y Cynulliad. Wrth gwrs, mae gwaith y pwyllgorau wrth galon hynny."[40]

## Safbwynt y Pwyllgor

**53.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod angen i'r Comisiwn newid ffocws ei waith ymgysylltu yn gyflym, gan symud i ffwrdd o ryngweithio wyneb yn wyneb i ymgysylltu digidol yn sgil COVID-19, ac mae'n cymeradwyo'r Comisiwn am ei ymdrechion i ymgysylltu yn ystod y pandemig.

**54.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn annog y Comisiwn i sicrhau na chaiff anghenion y rhai nad ydynt efallai'n ymgysylltu'n ddigidol eu hanghofio pan fydd yn ystyried llwyddiannau ymgysylltu digidol.

**55.** Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at lansiad gwefan newydd y Senedd ac mae'n gobeithio y bydd yn ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ymgysylltu â gwaith y Pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cynllun cyfathrebu'r Comisiwn yn egluro'n glir sut y caiff blaenoriaethau eu pennu, eu mesur a'u cyflawni, a sut mae'r cynllun yn ceisio codi proffil y gwaith a wneir mewn Pwyllgorau ac yn y Senedd.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn rhoi sylw arbennig i sicrhau bod ymgysylltu â'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, yn anodd eu cyrraedd, neu sy'n annhebygol o ymgysylltu â'r Senedd, yn brif flaenoriaeth yn ei gynllun cyfathrebu.

[39] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 103
[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 104

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r adroddiad ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol gynnwys manylion ychwanegol ynghylch sut y mae ailstrwythuro'r Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu yn cyd-fynd ag amcanion y cynllun.

# 7. Cyfnod pontio'r UE

**56.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi bod y Senedd yn wynebu pwysau gwaith sylweddol yn ystod y cyfnod pontio.

> "Fel isafswm, bydd angen i'r Aelodau graffu ar yr holl ddeddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â diwedd y cyfnod pontio a'i phasio. Bydd angen i'r Senedd hefyd ystyried yr holl Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â deddfwriaeth Brexit gan gynnwys Bil y Farchnad Fewnol, sy'n debygol o beri newid sylweddol i'r ffordd y mae'r sefydliadau datganoledig yn gweithredu. Mae'r Senedd wedi dod i gytundeb â Llywodraeth Cymru i graffu ar yr holl fframweithiau cyffredin amlinellol." [41]

**57.** Mae'r Gyllideb ddrafft yn nodi'r risg i enw da'r Senedd o fethu â chwblhau'r gwaith hwn, ynghyd â'r angen i gynllunio ar gyfer pob senario, gan sicrhau bod gennym "y sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi Aelodau."[42]

**58.** Pan ofynnwyd i'r Comisiynydd sut y gallai gwahanol senarios cyfnod pontio'r UE effeithio ar wasanaethau a chyllidebau'r Comisiwn, dywedodd:

> "…the main risk is, and always has been, that we don't have enough people with the right expertise to guide us as Members in particular through the changes that Brexit will bring, whether there's a deal or whether there isn't a deal. Members will remember that, for the last two or maybe three years, we've raised with you the need for the legal expertise as much as anything to get us through all the secondary legislation that the Commission's had to deal with without the great cohort of staff that Welsh Government has had."[43]

**59.** Ychwanegodd y Prif Weithredwr:

> "Then it is the access to academic expertise through our Brexit academic framework, which has already paid dividends and which we'll continue to call upon."[44]

**60.** Mae'r Comisiwn wedi hysbysu'r Pwyllgor o'r blaen ynghylch yr angen i lacio'r cap o 491 o swyddi yn y sefydliad, er mwyn darparu adnoddau ychwanegol, yn bennaf i gwrdd â heriau Brexit.[45]

---

[41] Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22
[42] Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22
[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 122
[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 123
[45] Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid – 3 Mai 2019

**61.** Fodd bynnag, dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor fod angen adnoddau arbenigol o hyd:

> "Yn edrych ar y flwyddyn nesaf, mi fydd angen tipyn o adnoddau arbenigol arnom ni, er enghraifft, tuag at ddiwedd eleni a dechrau blwyddyn nesaf i ddelio efo gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r gwaith fydd yn deillio o hynny."[46]

## Safbwynt y Pwyllgor

**62.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Comisiwn wedi buddsoddi mewn meithrin gallu yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gefnogi pwysau ychwanegol oherwydd Brexit a chyfnod pontio'r UE. Mae hyn wedi cynnwys newid pwrpas swyddi sydd eisoes yn bodoli, staffio ychwanegol a threfniadau meithrin cymorth gydag academyddion. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi 'r modd y mae hyn bellach yn cael ei brif ffrydio o fewn y gyllideb, ond mae'n cwestiynu pa adnoddau ychwanegol y mae'r Prif Weithredwr yn cyfeirio atynt fel rhai angenrheidiol, yn y cam hwyr hwn o'r cyfnod pontio.

**63.** Yn adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb ddrafft y Comisiwn 2020-21, gwnaeth yr Aelodau gydnabod gwaith staff y Comisiwn wrth ymateb i'r gwaith a gafodd ei greu gan Brexit. Unwaith eto, hoffai'r Pwyllgor ailadrodd y teimlad hwn, ac mae'n nodi bod y gwaith a wnaed gan staff y Comisiwn yn ystod 2020 wedi cael ei wneud wrth weithio o dan y cyfyngiadau a'r rhwystrau o ganlyniad i COVID-19.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu manylion ychwanegol i egluro'r adnoddau sydd gan y Comisiwn ar hyn o bryd i gefnogi'r Senedd yng nghyfnod pontio'r UE, yr adnoddau arbenigol ychwanegol y cyfeirir atynt mewn tystiolaeth, a sut y bydd yr adnoddau hyn yn cael eu cyrchu.

[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2020, paragraff 87